Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25

Hydref 2023




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25

Hydref 2023

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ....................................................................5**

Y cefndir ....................................................................5

**2. Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25....................................6**

Cyd-destun ....................................................................6

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24....................................7

Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25 ....................................8

Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig....................................12

Barn y Pwyllgor....................................13

**3. Y gweithlu ....................................16**

Staffio ....................................16

Taliadau Costau Byw ....................................17

Barn y Pwyllgor....................................21

**4. Cyllidebau wedi'u Neilltuo a Chyllid ar gyfer Prosiectau..........23**

Adnoddau i ddiwygio'r Senedd ....................................23

Rhaglen Ffyrdd o Weithio ....................................24

Cronfa prosiectau....................................25

Cyllid i gefnogi Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd....................................26

Barn y Pwyllgor....................................28

**5. Ymgysylltu a Chynaliadwyedd ....................................30**

Ymgysylltu....................................30

Cynaliadwyedd....................................31

Barn y Pwyllgor....................................32

# 1. Cyflwyniad

## Y cefndir

**1.** Yn ôl Rheol Sefydlog 20.13 y Senedd:

> *"Heb fod yn hwyrach na 1 Hydref ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i un o aelodau'r Comisiwn osod gerbron y Senedd gyllideb ddrafft ar gyfer y Comisiwn sy'n nodi'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall y mae'r Comisiwn wedi cytuno arno gyda Gweinidogion Cymru."*[1]

**2.** Mae'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad ar y Gyllideb ddrafft hon. Mae Rheol Sefydlog 20.14 yn datgan:

> *"Caiff adroddiad y pwyllgor cyfrifol argymell amrywiadau yn y symiau a gynigiwyd yn y gyllideb ddrafft ar yr amod na fyddai effaith net yr amrywiadau hynny'n cynyddu cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yng nghyllideb ddrafft y Comisiwn."*[2]

**3.** Gosodwyd Cyllideb ddrafft Comisiwn y Senedd (y Comisiwn) ar gyfer 2024-25 (y gyllideb ddrafft) ar 29 Medi 2023.[3] Ystyriodd y Pwyllgor gynigion y Comisiwn yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2023,[4] a chlywed tystiolaeth gan:

- Ken Skates AS, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethiant;
- Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd;
- Kate Innes, Prif Swyddog Cyllid, Senedd Cymru.

1 Rheolau Sefydlog Senedd Cymru
2 Rheolau Sefydlog Senedd Cymru
3 Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Medi 2023
4 Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 5 Hydref 2022

# 2. Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25

## Cyd-destun

**4.** Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi Datganiad o Egwyddorion[5] y mae'n disgwyl i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol[6] ei ystyried wrth lunio ceisiadau cyllidebol.[7] Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor yn y broses o adolygu'r Datganiad o Egwyddorion, ar ôl ymgynghori â'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ym mis Mai 2023.[8]

Datganiad o Egwyddorion ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol:

- Dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu tymor hir yng Nghymru, a'r pwysau ariannol sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus ehangach.
- Dylai ceisiadau ddangos sut y caiff amcanion blynyddol ac amcanion amlflwydd eu blaenoriaethu, eu monitro a'u cyflawni.
- Ni ddylai cyrff a ariennir yn uniongyrchol ragdybio cynnydd yn eu cyllidebau, ni waeth beth fo'r newid yn y grant bloc, gan fod unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus datganoledig eraill.
- Dylai cyrff a ariennir yn uniongyrchol geisio gwella eu prosesau a sicrhau arbedion yn barhaus.
- Mewn achosion lle y gwneir cais am gynnydd mewn cyllid, dylid ategu unrhyw gais o'r fath gyda thystiolaeth o'r angen a'r budd sydd ynghlwm wrth y cais, a thystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i leihau costau o'r fath. Yn ogystal, dylid egluro a meintioli'r canlyniadau sydd ynghlwm wrth beidio â sicrhau'r cynnydd mewn adnoddau y gofynnwyd amdano.

**5.** Ar 12 Gorffennaf 2023, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor i nodi gwahanol ffactorau i lywio'r gwaith blaengynllunio ariannol ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol wrth iddynt baratoi eu cyllidebau ar gyfer

5 Y Pwyllgor Cyllid, Datganiad o Egwyddorion y mae Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru yn disgwyl i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol eu hystyried wrth wneud cynigion cyllidebol, Mai 2019
6 Y cyrff a ariennir yn uniongyrchol yw'r rheini sy'n cael eu cyllid yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru ac mae'r canlynol yn eu plith: Archwilio Cymru; Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a Chomisiwn y Senedd.
7 Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 8 Gorffennaf 2021
8 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, 4 Mai 2023

blwyddyn ariannol 2024-25.[9] Ni fydd y sefyllfa gyllido ar gyfer Llywodraeth Cymru yn glir tan i Ddatganiad Hydref y DU gael ei gyhoeddi ar 22 Tachwedd 2023.

## Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24

**6.** Gosododd y Pwyllgor ei adroddiad ar gyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2023-24, ar 21 Hydref 2022.[10] Cafodd y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar gyllideb y Comisiwn ar gyfer 2023-24, ei threfnu'n wreiddiol ar gyfer 16 Tachwedd 2022, y diwrnod cyn Datganiad yr Hydref gan Lywodraeth y DU,[11] fodd bynnag, cafodd ei symud yn ôl i 23 Tachwedd 2022. Ysgrifennodd y Comisiynydd at y Pwyllgor ar 21 Tachwedd 2022 yn cadarnhau nad oedd cyllideb derfynol y Comisiwn yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r gyllideb ddrafft yr oedd y Pwyllgor wedi cynnal gwaith craffu arni.[12] Fodd bynnag, dywedodd:

> *"… gan wyro oddi wrth y gweithdrefnau arferol byddaf yn ymrwymo i adolygiad yn ystod y flwyddyn gan y Comisiwn, fel corff cyhoeddus cyfrifol, i ddod o hyd i arbedion a chyflymu arbedion effeithlonrwydd. Bydd hyn yn adlewyrchu'r realiti rydym yn ei hwynebu heddiw, yn hytrach na'r hyn a oedd yn bodoli yn ystod y broses o bennu'r Gyllideb dros yr haf."*[13]

**7.** Yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Tachwedd 2022, ychwanegodd y Comisiynydd y byddai angen addasiadau yn ystod y flwyddyn i'r gyllideb er mwyn "adlewyrchu'r pwysau ychwanegol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru".[14]

**8.** Gosododd y Comisiwn Gyllideb Atodol ar gyfer 2023-24 ym mis Mai 2023, gan leihau ei gyllideb o £435,000.[15] Roedd hyn yn cynnwys toriadau i'r gyllideb Adeiladau a Chyfleusterau o £208,000, cyllideb Cronfa'r Prosiect o £120,000 a chyllideb TGCh o £107,000. Croesawodd y Pwyllgor yr amrywiad hwn i gyllideb y

9 Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 12 Gorffennaf 2023
10 Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24, Hydref 2022
11 Trysorlys EF, Datganiad yr Hydref 2022, Tachwedd 17, 2022 (Saesneg yn unig)
12 Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethiant at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 21 Tachwedd 2022
13 Llythyr oddi wrth y Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethiant at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 21 Tachwedd 2022
14 Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 23 Tachwedd 2022, paragraff 167
15 Comisiwn y Senedd, Cyllideb Atodol 2023-24: Memorandwm Esboniadol, 24 Mai 2023

Comisiwn yn ei adroddiad ar y Gyllideb Atodol Gyntaf 2023-24, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023.[16]

**9.** Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 5 Hydref 2023, esboniodd y Comisiynydd sut yr oedd y gostyngiadau hyn wedi effeithio ar reolaeth cyllideb y Comisiwn yn 2023-24:

> "*… there were really hard choices for the supplementary budget, but the Commission prioritised protecting services and the vast majority of capital investment … through contract renegotiation.*"[17]

**10.** Fe gadarnhawyd nad oedd yr arbedion yn rhai rheolaidd,[18] ac eithrio gostyngiad yn y dreth ar danwydd.[19] Dywedodd y Comisiynydd y byddai effaith y gostyngiadau hyn yn 2023-24 hefyd i'w theimlo yn 2024-25 mewn perthynas â rheoli cyfleusterau ac ystadau.[20]

**11.** Rhoddodd y Prif Weithredwr fanylion pellach ar y pwysau a achoswyd gan y gostyngiadau hyn, gan nodi ei fod wedi effeithio ar eu gallu i wrthsefyll pwysau annisgwyl pellach yn ddiweddarach yn y flwyddyn, sef yr hyn a wynebwyd ganddynt. [21] Fodd bynnag, rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i'r Pwyllgor fod yr effaith yn un y gellir ei rheoli ac y bu modd iddynt glustnodi a diogelu gwasanaethau a buddsoddiad cyfalaf ar y pryd, ond eu bod wedi gorfod mynd ychydig y tu hwnt i hynny er mwyn fforddio'r taliad costau byw.[22]

## Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25

**12.** Cynigion cyllideb gyffredinol y Comisiwn ar gyfer 2024-25 yw £72.195 miliwn, o gymharu â £67.643 miliwn sydd wedi'i gynnwys yng nghyllideb ddrafft 2023-24[23] a'r ffigur diwygiedig o £67.208 miliwn yng nghyllideb atodol gyntaf 2023-24.[24] Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o £4.552 miliwn o gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2023-24 (£4.987 miliwn o gymharu â ffigurau'r gyllideb atodol gyntaf). Mae hyn yn gynnydd o 6.7 y cant (7.4 y cant o gymharu â'r gyllideb atodol gyntaf). Fodd bynnag, nid oes gan y Comisiwn reolaeth dros y gyllideb hon i gyd gan fod

16 Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2023-24, Gorffennaf 2023, Casgliad 2
17 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 34
18 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 48
19 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 52
20 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 34
21 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraffau 32-33
22 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraffau 32-33
23 Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Medi 2023
24 Comisiwn y Senedd, Cyllideb Atodol 2023-24: Memorandwm Esboniadol, 24 Mai 2023

cyflogau a lwfansau Aelodau a'u staff yn cael eu pennu gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol (gweler paragraff 15 isod).

**13.** Mae gwariant sy'n ymwneud â'r Comisiwn (nad yw'n cynnwys gwariant sy'n gysylltiedig ag Aelodau), gan gynnwys dibrisiant, yn cynyddu £3.126 miliwn neu 6.6 y cant o gymharu â chyllideb derfynol 2023-24 (neu £3.561 miliwn neu 7.6 y cant o gymharu â chyllideb atodol gyntaf 2023-24).

**14.** Mae mwyafrif y cynnydd hwn i'w briodoli i ddwy gyllideb wedi'u neilltuo: Ffyrdd o Weithio (sy'n cynnwys llinell gyllideb newydd o £1.531 miliwn) a Diwygio'r Senedd (cynnydd o £1.494 miliwn o gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2023-24). Crynhoir newidiadau eraill isod ac yn Nhabl 1:

- Mae gwariant sy'n ymwneud â'r Comisiwn (ac eithrio'r cyllidebau uchod sydd wedi'u neilltuo, a llog a dibrisiant) yn £41.531 miliwn, i fyny £1.013 miliwn neu 2.5 y cant ar y gyllideb ar gyfer 2023-24 (mae hyn yn gynnydd o £1.448 miliwn neu 3.6 y cant ar y gyllideb atodol 2023-24).
- Mae cyflogau a chostau cysylltiedig yr aelodau yn £19.180 miliwn, sef cynnydd o £1.346 miliwn neu 7.5 y cant o gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2023-24.
- Mae'r gyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn cynyddu £80,000 i £627,000.
- Nid yw cyllideb Swyddfa'r Comisiynydd Safonau wedi newid, sef £101,000.
- Mae costau dibrisiant a llog y Comisiwn yn £5.360 miliwn, i lawr £912,000.
- Mae costau cyllid pensiynau aelodau yn £1.8 miliwn, heb eu newid ers 2023-24.
- Mae llinell ar gyfer 2024-25 yn unig, sy'n amlygu £315,000 o "arbedion i'w nodi".

**15.** Rhoddir llai o ffocws yn yr adroddiad hwn i'r gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau. Mae cyflog a lwfansau yr Aelodau a'u staff cymorth yn cael eu gosod gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol, felly nid oes gan y Comisiwn reolaeth dros osod y gyllideb hon. Mae cyllid ar gyfer y Comisiwn ac adnoddau sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau yn cael eu gwahanu yn dilyn ymchwiliad gan y Pwyllgor Cyllid blaenorol i ddefnydd y Comisiwn o'r tanwariant

sy'n deillio o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau.[25] Felly, mae unrhyw danwariant yn erbyn y Penderfyniad hwn yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

25 Y Pwyllgor Cyllid (y Bumed Senedd), Defnydd Comisiwn y Cynulliad o'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau, Mai 2018

### Tabl 1: Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25

| | 2023-24 | | 2024-25 | Newid 2023-24 i Gyllideb Ddrafft 2024-25 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pennawd y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft | Atodol | Cyllideb Ddrafft | O Gyllideb Ddrafft 2023-24 | | O Gyllideb Atodol 2023-24 (lle bo'n wahanol) | |
| Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn | £000 | £000 | £000 | £000 | % | £000 | % |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | £28,357 | £28,357 | £29,663 | £1,306 | 4.6% | - | - |
| Adeiladau a chyfleusterau | £6,069 | £5,861 | £5,991 | -£78 | -1.3% | £130 | 2.2% |
| Costau TGCh | £2,801 | £2,694 | £2,731 | -£70 | -2.5% | £37 | 1.4% |
| Costau eraill | £1,961 | £1,961 | £2,061 | £100 | 5.1% | - | - |
| **Cyfanswm Gwariant Refeniw** | **£39,188** | **£38,873** | **£40,446** | **£1,258** | **3.2%** | **£1,573** | **4.0%** |
| Cyfanswm Incwm | -£170 | -£170 | -£100 | £70 | -41.2% | - | - |
| Gwariant Cyfalaf | £500 | £500 | £500 | £0 | 0.0% | - | - |
| Cronfa prosiectau | £1,000 | £880 | £1,000 | £0 | 0.0% | £120 | 13.6% |
| Arbedion i'w nodi | £0 | £0 | -£315 | -£315 | - | - | - |
| **Cyfanswm yr adnoddau gweithredol (ac eithrio llog / dibrisiant)** | **£40,518** | **£40,083** | **£41,531** | **£1,013** | **2.5%** | **£1,448** | **3.6%** |
| Taliadau Llog | £866 | £866 | £610 | -£256 | -29.6% | - | - |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | £5,406 | £5,406 | £4,750 | -£656 | -12.1% | - | - |
| Cyllidebau prosiect wedi'u neilltuo | | | | | | | |
| Costau Diwygio'r Senedd | £571 | £571 | £2,065 | £1,494 | 261.6% | - | - |
| Cyflogau Aelodau a chostau cysylltiedig sy'n deillio o Ddiwygio'r Senedd | £0 | £0 | £0 | £0 | - | - | - |
| Ffyrdd o Weithio | £0 | £0 | £1,531 | £1,531 | - | - | - |
| **Cyfanswm gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn** | **£47,361** | **£46,926** | **£50,487** | **£3,126** | **6.6%** | **£3,561** | **7.6%** |
| Cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig | £17,834 | £17,834 | £19,180 | £1,346 | 7.5% | - | - |
| Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau | £101 | £101 | £101 | £0 | 0.0% | - | - |
| Cyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau annibynnol | £547 | £547 | £627 | £80 | 14.6% | - | - |
| Costau cyllid pensiwn yr Aelodau | £1,800 | £1,800 | £1,800 | £0 | 0.0% | - | - |
| Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn | £67,643 | £67,208 | £72,195 | £4,552 | 6.7% | £4,987 | 7.4% |

**16.** Pan ofynnwyd iddo pam fod y Comisiwn wedi defnyddio'r ffigurau ar gyfer cyllideb derfynol 2023-24, fel y cytunwyd ar 23 Tachwedd 2022, fel ei waelodlin ar gyfer cyllideb ddrafft 2024-25, yn hytrach na'r ffigur gostyngol a gyflwynwyd yn ei gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2023-24 ym mis Gorffennaf 2023, esboniodd y Comisiynydd fod hyn yn arfer safonol ac nad ydynt yn diwygio'r ffigurau cymharol oni bai ei fod yn newid parhaol,[26] gan ychwanegu fel a ganlyn:

> *"… the savings achieved are delivered through delaying activity, rather than a permanent reduction to our cost baseline, and … some of the projects that have been paused will be delivered in future years; they've not been cancelled … so, the original laid budget comparisons for 2023-24 are the most appropriate numbers to use."*[27]

**17.** O ran yr effaith y byddai Datganiad Hydref diwedd y DU yn ei chael ar broses gosod cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2024-25, dywedodd y Comisiynydd:

> *"… our budgetary cycle is far from ideal, with the preparation taking place and the laying of the draft budget six months before the start of the financial year and the huge amount of change that can happen in that six-month period."* [28]

**18.** Ychwanegodd y Comisiynydd nad yw'r Comisiwn yn gallu ymateb i newidiadau posibl o ran trethi, na deall cyllid bloc Cymru ar gyfer y flwyddyn ganlynol ac, o ganlyniad, byddai'n gorfod gwneud mwy o ddefnydd o gais cyllideb atodol i fynd i'r afael â'r materion hyn pe byddent yn codi.[29]

**19.** At hynny, dywedodd y Comisiynydd y byddai'n croesawu'r Pwyllgor Busnes yn edrych ar y gweithdrefnau ariannol a amlinellwyd yn y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â chyllideb y Comisiwn, er mwyn archwilio lle y gellid gwneud unrhyw newidiadau i wella'r amserlenni presennol.[30]

## Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig

**20.** Yn ei ddogfen gyllideb ddrafft, mae'r Comisiwn yn datgan ei fod wedi datblygu Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig er mwyn nodi, deall ac amcangyfrif pwysau costau yn y dyfodol cyn cyllidebu.

26 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 46
27 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 46
28 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 36
29 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 36
30 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 39

**21.** Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys Cynllun Ariannol Tymor Canolig tair blynedd treigl a Chynllun Gweithlu, gan gynnwys Sefydliad Targed ar gyfer niferoedd staff parhaol (mae materion sy'n ymwneud â'r gweithlu wedi'u hystyried yn fwy manwl ym Mhennod 3).

**22.** Pan ofynnwyd iddo sut y bydd cynllunio cyllideb y Comisiwn yn wahanol o dan y fframwaith newydd, esboniodd y Prif Swyddog Cyllid y bydd y broses o baratoi'r gyllideb ei hun yn parhau heb ei newid,[31] gan ychwanegu fel a ganlyn:

> *"The medium-term resource framework is a high-level planning mechanism tool … that will continually be going on in the background, looking at projects, prioritising, looking at resources, looking at the funding requirements of everything that we would potentially like to do … So, it creates really rich information for us to input into the budget process, so, our budgeting will become more accurate … it's about enabling us to plan solutions in advance and we will become more strategic in budgeting and in how we deliver these multi-year projects."* [32]

**23.** Tynnodd y Prif Swyddog Cyllid sylw at yr arbedion o £315,000 a nodwyd yn y gyllideb ddrafft fel enghraifft o'r fframwaith ar waith, gan egluro fel a ganlyn:

> *"We've been using the medium-term resource planning as a tool for this year … We've looked at our resources, we've budgeted for our resources and what we have is the saving. So, the £315,000 saving that we see as a line and a target for savings, we will then now, in the autumn, take that and work through our processes within the framework and identify how we address that."* [33]

## Barn y Pwyllgor

**24.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod amseriad hwyr Datganiad Hydref y DU ac, yn benodol, y diffyg sicrwydd ynghylch faint o arian sydd ar gael yng Nghronfa Gyfunol Cymru ar gyfer 2024-25 a'r blynyddoedd i ddod, yn ei gwneud yn anodd i'r Comisiwn bennu ei gyllideb ar lefelau priodol, o fewn cyd-destun sefyllfa ariannu'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

31 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 56
32 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 56
33 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 57

**25.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am farn y Comisiwn ynghylch y modd y mae amseriad presennol cylch y gyllideb yn effeithio ar ei waith cynllunio ariannol. Rydym yn cydymdeimlo â safbwynt y Comisiwn a byddwn yn ystyried y safbwyntiau hyn fel rhan o adolygiad ehangach y Pwyllgor o brotocol y gyllideb, a'n hadolygiad parhaus o'r Datganiad o Egwyddorion.

**26.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y penderfyniadau anodd y mae'r Comisiwn wedi'u cymryd yn ystod y flwyddyn ariannol hon i ddod o hyd i arbedion yn ystod y flwyddyn yng nghyllideb atodol 2023-24 a'r ymarfer dilynol i ariannu taliad costau byw i staff (ystyrir hyn yn fanylach ym Mhennod 3). Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r rhan fwyaf o'r arbedion hyn yn rhai rheolaidd. Fodd bynnag, hoffem gael mwy o eglurder gan y Comisiwn ar yr effaith y bydd unrhyw arbedion a wneir yn 2023-24 yn parhau i'w chael ar y gwasanaethau a ddarperir a'r prosiectau arfaethedig sydd wedi'u gohirio, fel ei gilydd.

**27.** Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed y bydd Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig treigl newydd y Comisiwn yn mynd ati i ganfod arbedion. Mae hyn yn dangos bod y Comisiwn yn cadw at y Datganiad o Egwyddorion wrth barhau i geisio gwella prosesau a chronni effeithlonrwydd, o ran lleihau costau a chynyddu incwm.

**28.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cynigion cyllidebol y Comisiwn yn seiliedig ar y gyllideb ar gyfer 2023-24, fel y cytunwyd arni gan y Senedd ym mis Tachwedd 2022, ac nid y ffigur cyllidebol diwygiedig a amlinellwyd yng nghyllideb atodol gyntaf 2023-24, wnaeth ddangos gostyngiad o £435,000.

**29.** Mae'r Pwyllgor wedi galw yn y gorffennol ar Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol i ddileu unrhyw danwariant neu gyllid yn ystod y flwyddyn a ddychwelwyd i Gronfa Gyfunol Cymru o'u llinell sylfaen, er mwyn darparu eglurder a thryloywder ar faint ceisiadau cyllideb a wneir o un flwyddyn i'r llall.[34] Er bod y Pwyllgor yn derbyn y rhesymau a ddarparwyd gan y Comisiwn dros seilio ei gyllideb ar gyfer 2024-25 ar y ffigurau a gytunwyd yn wreiddiol gan y Senedd ar gyfer 2023-24, mae'n siomedig na chyfeiriwyd at y gostyngiadau a wnaed wedi hynny, drwy'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2023-24 ym mis Gorffennaf 2023, yn y ddogfen gyllideb ddrafft er eglurder ac at ddibenion cymharu, yn enwedig gan yr ymrwymwyd i adolygu'r gyllideb yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn i gytuno ar gyllideb y Comisiwn ar gyfer 2023-24.

34 Gweler: Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2022, Argymhelliad 15; Y Pwyllgor Cyllid, Craffu Blynyddol ar Waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Tachwedd 2022, Argymhelliad 8; Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24, Hydref 2022, Paragraff 68

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn nodi 'Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25' ac, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'n cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau yn 2024-25, ac yn argymell bod y Senedd yn cefnogi'r gyllideb hon.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn, yn unol â'r Datganiad o Egwyddorion, yn mynd ati'n barhaus i geisio gwella prosesau a sicrhau effeithlonrwydd, a bod y Pwyllgor Cyllid yn cael gwybod am y cynnydd cyn gosod cyllideb ddrafft 2025-26.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effaith y bydd unrhyw arbedion a wneir yn 2023-24 yn parhau i'w chael ar ei wasanaethau ac unrhyw brosiectau arfaethedig ar gyfer 2024-25, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023-24.

# 3. Y gweithlu

## Staffio

**30.** Mae'r gyllideb ddrafft yn nodi bod y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig (a grybwyllir ym Mhennod 2) yn cynnwys Cynllun Gweithlu a fydd "yn cynnwys gosod Sefydliad Targed … i sicrhau bod adnoddau pobl y Comisiwn yn parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiwn o fewn yr amlen adnoddau sydd ar gael".[35]

**31.** Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor fod y Cynllun Gweithlu yn edrych ar sut y maent yn sicrhau bod eu capasiti yn gywir mewn gwahanol feysydd;[36] ac eglurodd y Comisiynydd fod y cynllun yn sicrhau eu bod yn gallu adnabod lle mae'r angen mwyaf.[37]

**32.** Mae'r gyllideb ddrafft yn nodi bod dros 70 y cant o gyfanswm gwariant gweithredu'r Comisiwn (ac eithrio cyllidebau a glustnodwyd, dibrisiant a llog) yn ymwneud â chostau staffio.[38] Mae cytundeb cyflog hirdymor ar waith ar gyfer staff y Comisiwn yn seiliedig ar chwyddiant cyflog hanesyddol yng Nghymru, wedi'i gapio ar 3 y cant. Mae'r gyllideb ddrafft yn rhagdybio cynnydd o 3 y cant yn unol â'r cytundeb hwn, yn dilyn dyfarniad cyflog o 2.4 y cant yn 2023-24.[39]

**33.** Mewn perthynas â'r modd y byddai'r Comisiwn yn ymateb i ddyfarniadau cyflog arall ar gyfer staff yn 2024-25, y tu hwnt i'r cynnydd tybiedig o 3 y cant sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddrafft, esboniodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

> *"the budget's staff costs have been calculated based on the current maximum cap of the existing agreement between the unions and the Commission, and that's 3 per cent."*[40]

**34.** Ychwanegodd y Prif Weithredwr fel a ganlyn:

> *"There will be a lot of negotiation in the coming year about the successor to the pay deal that we have at the moment. It is something that we keep an eye on, but we have to … keep that*

35 Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Medi 2023, tudalen 15
36 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 62
37 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 67
38 Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Medi 2023, tudalen 17
39 Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Medi 2023, tudalen 17
40 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 69

> *within the context of what is affordable and reasonable for us to ask for as a responsible public body."*[41]

**35.** Pan holwyd y Comisiynydd ynghylch sut mae ei ymagwedd at y gweithlu yn cymharu â'r sector cyhoeddus ehangach, dywedodd:

> *"… we participate in regular forums with the Welsh sponsored bodies, and have a good understanding across the wider section of pay, well-being and retention in the public sector. I think, in terms of our comparison with those other bodies, we're in a very strong position. We have a resilient workforce."*[42]

**36.** O ran sgoriau llesiant staff, ychwanegodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

> *"the staff survey found that overall well-being for the Commission is good, when compared to industry average. I accept that the results found that 21 per cent of staff are at risk of having poor well-being, but that compares to an industry average of 40 per cent, so we are again in a strong position."*[43]

**37.** Ar gais y Pwyllgor, darparodd y Comisiwn gopi o Arolwg Staff Comisiwn y Senedd ar gyfer 2022-23 mewn gohebiaeth ddilynol.[44]

## Taliadau Costau Byw

**38.** Ar 19 Ionawr 2023, ysgrifennodd y Prif Weithredwr at y Pwyllgor i dynnu sylw at daliad costau byw o £500 a oedd i'w ddarparu o fewn blwyddyn ariannol 2022-23 i staff ar gyflog cyfwerth ag amser llawn o dan £32,000.[45] Dilynwyd hyn, ar 24 Mai 2023, gan lythyr gan y Comisiynydd a oedd yn rhoi gwybodaeth am waith arolwg a wnaed gan y Comisiwn i ddeall effaith taliad costau byw o £500 i staff ar gyflogau is.[46]

**39.** Ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi cyfnewid gohebiaeth â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynghylch y tebygolrwydd o symiau canlyniadol posibl o ddyfarniadau cyflog Llywodraeth y DU ar gyfer staff y sector cyhoeddus, a'r taliad o

41 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 78
42 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 74
43 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 74
44 Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethiant at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 11 Hydref 2023
45 Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 19 Ionawr 2023
46 Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethiant at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 24 Mai 2023

£1,500 i weision sifil Llywodraeth Cymru. Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor ar 1 Awst 2023, gan nodi bod datganiadau gan Lywodraeth y DU "ar hyn o bryd" yn nodi na fydd cyllid canlyniadol i Gymru, sy'n golygu y byddai dyfarniadau cyflog yn cael eu hariannu o gyllidebau presennol.[47] Ychwanegodd y Gweinidog y "byddem yn disgwyl i'n Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ddefnyddio dull tebyg a cheisio cynnwys y costau o fewn y setliadau cyllidebol presennol".[48]

**40.** Mae'r gyllideb ddrafft yn cyfeirio at daliad costau byw i'r holl staff islaw lefel cyfarwyddwyr yn 2023-24.[49] Cadarnhaodd llythyr oddi wrth y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor ar 29 Medi 2023 fel a ganlyn:

> *"Y cynnig yw talu'r swm llawn o £1,500 i bob aelod o staff rhwng graddau Cymorth Tîm a Gradd 6, a hynny ar ffurf dau randaliad yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y taliad fydd £824,000."*[50]

**41.** Ychwanegodd y llythyr fod y "gwariant yn fforddiadwy, yn amodol ar wneud arbedion".[51]

**42.** Yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar 5 Hydref 2023, esboniodd y Prif Weithredwr sut roedd y Comisiwn wedi mynd i'r afael â'r mater hwn:

> *"When this first emerged in the beginning of the summer, we sought a steer from the Commission, who met in August to consider options … When we reconvened in September, we had prepared some more in-depth analysis of the various options that we had for payments in the current year. We also had a letter from the First Minister underlining the fact that there was no additional funding coming from the UK Government for any part of the public sector, and that, therefore, there was an expectation that the Commission would bear that in mind in deciding how to manage the budget in-year …*

47 Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 1 Awst 2023
48 Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 1 Awst 2023
49 Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Medi 2023, tudalen 17
50 Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 29 Medi 2023
51 Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 29 Medi 2023

> *The majority decision then was to press ahead and make the offer, with further work still to come on prioritising exactly which parts of the budgets the savings will be coming from."*[52]

**43.** At hynny, darparodd y Comisiynydd eglurhad ar sut mae'r Comisiwn yn bwriadu ariannu'r taliad hwn o'r cyllidebau presennol:

> *"The money is going to be found through in-year savings from spend that was not committed or required. That amounts to £280,000. There's also a targeted recruitment freeze … from which we're going to be saving around £415,000. So, £130,000 is yet to crystallise, but this will come through savings from projects, and also from smaller budget lines as well. As at the end of September, we required only a further £20,000 to be identified."*[53]

**44.** O ran effaith yr atal recriwtio ar weithlu'r Comisiwn, ychwanegodd y Prif Weithredwr fel a ganlyn:

> *"the Commission is very supportive of us considering staff welfare, because the human resource isn't infinitely extendable, and we need to make sure that our teams don't suffer from too much workplace stress and that the situation becomes unsustainable."*[54]

**45.** Pan ofynnwyd iddo am effaith yr arbedion sydd eu hangen i ariannu'r taliad hwn, dywedodd y Comisiynydd y byddai hynny'n cael ei deimlo ar draws y sefydliad oherwydd cyllidebau llai, a llai o staff ac adnoddau.[55] Fodd bynnag, cadarnhaodd y Comisiynydd fod blaenoriaethau allweddol, gan gynnwys diwygio'r Senedd a ffyrdd o weithio, wedi'u diogelu.[56] Eglurodd y Comisiynydd hefyd fel a ganlyn:

> *"The Commission … has only agreed to savings that are specific to the current year's budget—so, no support services or activities have been permanently ceased. But it does mean that for the remainder of the year, there will be reduced travel opportunities, reduced events, and publications will not be purchased, as has happened in previous years—we'll be*

52 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 21
53 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 18
54 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 62
55 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 23
56 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 23

> *reducing the volume of publications that are purchased. Training is going to be provided predominantly in-house for the rest of the year, and projects that have not started have now been paused, with the exception of multi-year projects."*[57]

**46.** Ychwanegodd y Comisiynydd y byddai'r gostyngiadau hyn hefyd yn cael effaith ar gynllunio'r gyllideb yn 2024-25, gan ddweud na fyddai'r drefn arferol, o reidrwydd, yn dychwelyd y flwyddyn nesaf.[58]

**47.** Anfonwyd llythyr pellach at y Pwyllgor gan y Comisiwn ar 3 Hydref 2023 sy'n cyfeirio at gais gan Undeb y PCS i'r Comisiwn "ystyried gwneud rhagor o daliadau cymorth byw i'w staff".[59] Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *"The PCS Union has informally indicated that the further payment might involve a sum of £3,000 per member of staff in the next financial year. The provision for such a payment to Commission staff would be in the order of £1.6m which would be almost 4% of the Commission operating budget before ringfenced programme budgets, twice the amount we are facing in this financial year."*[60]

**48.** Daw'r llythyr i'r casgliad a ganlyn: "Gan nad yw'r cais wedi'i wneud na'i gytuno'n ffurfiol, ni allwn ei ystyried o fewn ein cyllidebau ar gyfer 2024-25".[61]

**49.** At hynny, cafodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Undeb y PCS yn ymwneud â'r materion hyn ar 11 Hydref, [62] oedd yn dweud:

> *"PCS has long been ready to negotiate a settlement that would mitigate the real-terms decrease in the pay of Commission staff and bring the ongoing dispute to an end."* [63]

**50.** Pan ofynnwyd sut y byddai'r Comisiwn yn ariannu cais o'r fath ar gyfer 2024-25, esboniodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

---

57 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 23
58 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 25
59 Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethiant at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2023
60 Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethiant at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2023
61 Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethiant at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2023
62 Llythyr oddi wrth Undeb y PCS at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 11 Hydref 2023
63 Llythyr oddi wrth Undeb y PCS at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 11 Hydref 2023

> *"At the level that's been requested, the cost would be way in excess of £1 million, which we simply wouldn't be able to find, and so we'd be in a position where we would have to request a supplementary budget."*[64]

## Barn y Pwyllgor

**51.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y codiadau cyflog ar gyfer staff y Comisiwn wedi'u cyfyngu i 2.4 y cant y flwyddyn ariannol hon a'u bod wedi'u cyllidebu ar 3 y cant o fewn cyllideb ddrafft 2024-25. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymhellach gynigion y Comisiwn i roi taliad costau byw o £1,500 i'w staff ym mlwyddyn ariannol 2023-24 a'r penderfyniadau anodd y bu'n rhaid eu gwneud er mwyn ariannu taliadau o'r fath o'r cyllidebau presennol yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd yn nodi gohebiaeth gan Undeb y PCS ar y materion hyn.[65]

**52.** Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi ymdrechion y Comisiwn i dynnu sylw at y ffaith y gallai'r dyfarniad cyflog tybiedig sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddrafft newid, ac am nodi taliadau ychwanegol posibl y gellid eu gwneud i staff a sut y gallai hyn effeithio ar gyllideb ddrafft 2024-25.

**53.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r effaith ariannol y byddai unrhyw godiad cyflog i staff uwchlaw'r hyn a gyllidebwyd ar ei gyfer yn ei chael ar sefyllfa gyllidebol y Comisiwn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod dyfarniadau cyflog y Comisiwn wedi arwain at ostyngiadau sylweddol mewn gwir incwm dros y ddwy flynedd ddiwethaf i staff y Comisiwn. Fodd bynnag, o ystyried maint y cyllid y gallai fod ei angen, mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y bydd yn anodd i'r Comisiwn ariannu dyfarniadau cyflog ychwanegol heb naill ai doriadau ychwanegol sylweddol i wasanaethau a/neu gyllideb atodol.

**54.** Mae'r Pwyllgor wedi datgan yn flaenorol na all lunio barn ar faterion gweithredol o fewn y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol sy'n gyfrifoldeb uwch arweinwyr o fewn y sefydliadau hynny,[66] ac felly nid yw'n briodol i'r Pwyllgor fynegi safbwynt ar faterion sy'n ymwneud â chyflogau staff y Comisiwn. Serch hynny, mae gan y Pwyllgor ddiddordeb naturiol yn effaith ariannol penderfyniadau o'r fath ar y Comisiwn, yn enwedig lle gallai'r rhain effeithio ar dynnu i lawr o Gronfa Gyfunol Cymru, neu allu'r Comisiwn i gefnogi'r Senedd. Mae'r Pwyllgor, felly, yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar y datblygiadau hyn, o ran y cytundeb cyflog i staff yn 2024-25.

64 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 64
65 Llythyr oddi wrth Undeb y PCS at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 11 Hydref 2023
66 Gweler: Llythyr oddi wrth Gadeirydd canghennau PCS a Prospect yn Archwilio Cymru, y Pwyllgor Cyllid ynghylch tâl staff, 22 Tachwedd 2022

**55.** Mae’r Pwyllgor yn nodi gwybodaeth a ddarparwyd gan y Comisiwn ar ei ymatebion i’r arolwg staff ac yn cydnabod eu bod yn cymharu’n ffafriol â chyfartaleddau ehangach y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, yng ngoleuni penderfyniadau a wnaed i ariannu taliad costau byw yn 2023-24, gan gynnwys atal recriwtio, mae’r Pwyllgor yn pryderu y gallai staff fod yn destun pwysau llwyth gwaith ychwanegol.

**56.** Rydym yn cydnabod y cymorth a ddarperir gan y Comisiwn yn y maes hwn, a’r camau cadarnhaol a gymerwyd gan y Comisiwn i fonitro llesiant ei staff. Credwn yn gryf, felly, y dylai’r dull hwn barhau fel bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu i staff sy’n wynebu anawsterau ariannol a/neu heriau llesiant.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn:

- yn hysbysu’r Pwyllgor pan fydd wedi dod i gytundeb cyflog ar gyfer 2024-25, gan gynnwys unrhyw ddyfarniadau cyflog anghylchol; ac
- yn gwerthuso effaith unrhyw gytundeb cyflog ar staff ac yn rhannu ei ganfyddiadau gyda'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 5.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am effaith gyllidebol unrhyw benderfyniadau a wneir mewn perthynas â chyflogau staff y Comisiwn yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25, ac, os gwneir unrhyw daliadau ychwanegol, egluro sut y caiff y taliadau hyn eu hariannu yn ystod y flwyddyn ariannol hon, tra’n cynnal y lefelau presennol o wasanaeth.

**Argymhelliad 6.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn parhau i gynnal arolwg rheolaidd o staff i fonitro effaith llwythi gwaith, gan gynnwys lles meddyliol ac ariannol staff, ac yn rhoi canlyniadau ymarferion o’r fath i’r Pwyllgor erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

# 4. Cyllidebau wedi'u Neilltuo a Chyllid ar gyfer Prosiectau

### Adnoddau i ddiwygio'r Senedd

**57.** Cyflwynwyd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)[67] ar 18 Medi 2023 ac mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn darparu amcangyfrifon costau sy'n ymwneud â'r cynigion.[68] Bydd y Pwyllgor yn ystyried goblygiadau ariannol y Bil ar wahân, a chynhaliodd sesiwn dystiolaeth gyda'r Comisiwn ar yr amcangyfrifon cost ar 11 Hydref 2023.[69]

**58.** Mae'r ffigurau sy'n ymwneud ag ariannu'r cynigion hyn yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25 wedi'u paratoi gan ddefnyddio'r amcangyfrifon cost a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w cynnwys yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil, ac maent yn dod i £2.065 miliwn.[70] Roedd hyn yn cynnwys:

- £1.399 miliwn o gostau cyfalaf (swyddfeydd yr Aelodau a phecyn TGCh ar gyfer staff newydd);
- £642,000 ar gyfer costau staffio (gan gynnwys tair swydd newydd); a
- £23,000 ar gyfer costau nad ydynt yn gostau staff.

**59.** Pan ofynnwyd iddi egluro'r rhesymau pam yr oedd costau Diwygio'r Senedd ar gyfer 2024-25 yn wahanol i'r rheini a gafodd eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil, esboniodd y Prif Weithredwr fel a ganlyn:

> *"... what we're seeing is the difference between the high-level estimates that were prepared for inclusion in the regulatory impact assessment a good six months ago now and what happens when it comes to actual budgeting."*[71]

**60.** Ychwanegodd y Prif Weithredwr mai'r canlyniad yw bod eu cyllideb ar gyfer 2024-25 wedi cynyddu £124,000, ac mae hynny'n cynnwys gostyngiad o £241,000

67 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), fel y'i cyflwynwyd
68 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), Memorandwm Esboniadol
69 Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 11 Hydref 2023, eitemau 3 a 6
70 Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Medi 2023, tudalen 11
71 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 85

yn eu disgwyliad o ran defnydd staff yn ystod y flwyddyn i ddod, a'r gyllideb gyfalaf i fyny £365,000. Felly, canlyniad net hynny yw £124,000.[72]

## Rhaglen Ffyrdd o Weithio

**61.** Sefydlodd y Comisiwn y Rhaglen Ffyrdd o Weithio ("y Rhaglen") ym mis Mawrth 2022. Mae wedi'i rannu'n dri phrif ffrwd waith: Ffrwd Waith Bae Caerdydd, sy'n cwmpasu prosiectau ystadau i baratoi ar gyfer Senedd fwy o faint (fel y nodir ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)) ac yn darparu llety hirdymor y tu hwnt i brydles Tŷ Hywel 2032. Mae ffrydiau gwaith eraill yn cwmpasu sylfaen ranbarthol ar gyfer gwasanaethau'r Comisiwn y tu allan i Gaerdydd ac yn cynhyrchu Fframwaith Datblygu a Chyflawni Strategol.

**62.** Mae ceisiadau am gyllid sy'n cyd-fynd â'r Rhaglen ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y canlynol:

- Prosiect Bae Caerdydd 2032 – £1.25 miliwn;
- Rheoli Rhaglenni – £101,000;
- Cyflawni strategaeth y Rhaglen – £100,000;
- Costau cyfreithiol – £50,000; a hefyd
- Prosiect adolygu'r Pierhead – £30,000.

**63.** Yn ei adroddiad ar gyllideb ddrafft 2023-24, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Comisiwn ystyried manteision prynu rhydd-ddaliad Tŷ Hywel a'i fod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am yr opsiynau o ran ystadau.[73] Yn ei ymateb, dywedodd y Comisiwn fod y cynghorwyr eiddo, Avison Young, i fod i roi cyngor cychwynnol ddiwedd gwanwyn 2023 ac, yn amodol ar gymeradwyaeth, y disgwylir i opsiynau gael eu paratoi yn ystod y flwyddyn galendr hon.[74] Yn ôl cyllideb ddrafft 2024-25, mae'r adnoddau y gofynnwyd amdanynt "yn darparu ar gyfer bwrw ymlaen yn gynt ag unrhyw opsiwn a ddewisir o ystyried bod prydles Tŷ Hywel yn dod i ben yn 2032".[75]

72 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 85
73 Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24, Hydref 2022, Argymhelliad 4
74 Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethiant at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 30 Mawrth 2023
75 Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Medi 2023, tudalen 14

**64.** Pan ofynnwyd iddo am brosiect Bae Caerdydd 2032, dywedodd y Comisiynydd ei bod yn gwbl hanfodol bod Aelodau'n ymgysylltu'n llawn drwy gydol y broses,[76] gan ychwanegu fel a ganlyn:

> *"it is a long-term project, the first stage of which is the development of the strategic outline case. The Llywydd has specifically raised this project already in discussions with party group leaders within the last few weeks, and that's the starting point of a greater degree of engagement that you'll see in the coming weeks and months."*[77]

**65.** At hynny, cadarnhaodd y Comisiynydd y bydd costau'r prosiect yn y dyfodol yn cael eu cynnwys fel rhan o gyllideb weithredol y Comisiwn, felly bydd y Pwyllgor yn gallu cynnal gwaith craffu llawn ar hynny.[78]

**66.** Pan ofynnwyd a fyddai costau'r prosiect yr un fath ni waeth a fyddai cynnydd yn aelodaeth y Senedd yn digwydd ai peidio, dywedodd y Comisiynydd:

> *"Senedd reform is a key driver for our change programme and costs over the coming years. But it's not the only driver for change. Changes in the way that Members are working, as well as the Commission's strategic priorities, are also driving the change programme. So, we'd still have some ways of working costs, regardless of whether Senedd reform proceeded."* [79]

**67.** Nododd y Comisiynydd fod y costau hyn yn ymwneud â'r canlynol:

> *"… the bay 2032 project, which has to proceed, due to the lease expiring on Tŷ Hywel; the regional work stream … the Pierhead review as well; and all Commission and Member costs associated with embedding new ways of working on a sustainable basis."*[80]

### Cronfa prosiectau

**68.** Mae dogfennaeth y gyllideb ddrafft yn nodi bod y Gronfa Prosiect yn gronfa ar gyfer prosiectau sydd â gwariant y tu hwnt i'r cyllidebau gwasanaeth

76 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 80
77 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 80
78 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 80
79 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 82
80 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 82

dirprwyedig, ac nid yw wedi newid ar £1.0 miliwn yn 2024-25. Yn ogystal, mae gwariant cyfalaf o £500,000 wedi'i gyllidebu.

**69.** Yng nghyllidebau blynyddoedd blaenorol, mae'r Comisiwn wedi nodi'r prosiectau blaenoriaeth y bwriedir eu cefnogi o dan y Gronfa Brosiect gyfunol a'r gyllideb gyfalaf, gydag amcangyfrif o'r cyllid wedi'i neilltuo i'r penawdau hyn. Nid oes tabl cyfatebol eleni, fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn nodi prosiectau allweddol i'w hystyried i'w blaenoriaethu yn 2024-25, sy'n cynnwys y rhai canlynol:

- disodli'r system gyflogres;
- disodli System Rheoli Busnes y Senedd; a
- Clyweled a Darlledu.[81]

**70.** Pan ofynnwyd pa ddyraniadau sydd wedi'u clustnodi ar gyfer pob prosiect, soniodd y Comisiynydd fod tri phrif brosiect yn mynd i gael eu dilyn,[82] sy'n cynnwys systemau cyflogres newydd sy'n costio £190,000; £360,000 i adnewyddu system rheoli busnes y Senedd; a £445,000 pellach ar ddiweddariadau seilwaith darlledu.[83]

**71.** Ychwanegodd y Prif Weithredwr fel a ganlyn:

> "*We have a dynamic method of project management, and this is part of the reason why we can't give you chapter and verse now on what our project fund is being spent on, because we are reprioritising at various points during the year to make sure that the projects we deliver are the ones that are most critical to the operation of business. And then, we will report back to you on the progress of that, as we go on.*"[84]

**72.** Darparwyd rhagor o fanylion am brosiectau arfaethedig y Comisiwn ar gyfer 2023-24 a 2024-25 hefyd, ar gais y Pwyllgor, mewn gohebiaeth ddilynol.[85]

## Cyllid i gefnogi Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

**73.** Mae'r gyllideb ddrafft yn nodi cost cymorth gweinyddol i'r Bwrdd Taliadau fel llinell gyllideb ar wahân, y tu allan i waith craidd y Comisiwn; dull a fabwysiadwyd

81 Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Medi 2023, tudalen 16
82 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 93
83 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 93
84 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 33
85 Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethiant at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 11 Hydref 2023

yn y lle cyntaf pan gyflwynodd y Comisiwn ei gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2022-23 ym mis Mai 2022.[86]

**74.** Yn dilyn y cais cyllideb atodol yn 2022-23, cynyddodd y cyllid ar gyfer y llinell gyllideb hon £218,000,[87] er iddo gael ei ostwng o £125,000 yn dilyn hynny oherwydd swyddi gwag. Fodd bynnag, mae cyllidebau cyffredinol i gefnogi'r Bwrdd Taliadau wedi bod yn cynyddu o £352,000 yn 2022-23 i £547,000 yn 2023-24 i £627,000 yn 2024-25.

**75.** Ar gyfer 2024-25, mae'r gyllideb hon yn cynnwys costau staff y Comisiwn o £482,000; ffioedd a threuliau ar gyfer Aelodau Bwrdd o £47,000 a chostau a gwariant arall, megis comisiynu arbenigedd allanol gwerth £98,000.

**76.** Eglurodd y Comisiynydd pam fod y costau hyn wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel a ganlyn:

> *"the staffing costs reflect a static establishment head count in line with the Commission medium-term resourcing framework, but it will include, of course, staff pay awards, which will account for previous increases in budget. Ninety-thousand pounds is being allocated for remuneration projects for 2024-25 … Their estimated needs and the requirements of the work programme will of course be kept under review by the board as its work programme evolves."*[88]

**77.** At hynny, dywedodd y Comisiynydd:

> *"guidance is being developed by the chair of the IRB and the accounting officer that will provide guidance and processes for, first of all, all resource requests from the independent remuneration board, and also, secondly, any requests for authority to spend project provision allocations."*[89]

**78.** Esboniodd y Prif Weithredwr hefyd mai ei gwaith, fel swyddog cyfrifo, yw gwneud penderfyniad ar resymoldeb – sef y maen prawf y caniateir iddi ei ddefnyddio – o geisiadau gan y bwrdd taliadau.[90] Aeth ymlaen i ddweud:

> *"the principle of independence is very important—that the remuneration board should make its own decision about its*

86 Comisiwn y Senedd, Cyllideb Atodol 2022-23: Memorandwm Esboniadol , Mai 2022
87 Comisiwn y Senedd, Cyllideb Atodol 2022-23: Memorandwm Esboniadol , Mai 2022
88 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 104
89 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 108
90 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 109

> *programme of work and what information it requires. It is undertaking, for example, a fairly major review of pay and grading of member support staff, which I believe Members have welcomed."* [91]

## Barn y Pwyllgor

**79.** Mae'r Pwyllgor yn parhau i gefnogi'r tryloywder ychwanegol a ddarperir gan wahanu cyllidebau sydd wedi'u neilltuo – fel yr un ar gyfer Diwygio'r Senedd a'r rhaglen Ffyrdd o Weithio – ac mae'n croesawu cadarnhad y bydd tanwariant ar y cyllidebau hyn yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn hanfodol o ran sicrhau tryloywder wrth i'r Comisiwn baratoi i weithredu newidiadau sy'n deillio o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), os caiff ei basio gan y Senedd.

**80.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r costau a glustnodwyd ar gyfer Diwygio'r Senedd yn y gyllideb ddrafft a bod y costau manwl sy'n ymwneud â gweithredu Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef. Bydd y Pwyllgor yn cynnal gwaith craffu ar wahân ar yr amcangyfrifon cost hyn, sy'n mynd y tu hwnt i flwyddyn ariannol 2024-25, yn ystod tymor yr hydref.

**81.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Ffyrdd o Weithio. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid darparu gwybodaeth ychwanegol i egluro cwmpas prosiect Bae Caerdydd 2032 yn benodol, a'r canlyniadau y mae'n disgwyl eu cyflawni. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion o'r blaen yn ymwneud ag ystâd y Comisiwn, gan gynnwys gofyn i'r Comisiwn archwilio materion yn ymwneud â phrydlesu adeilad Tŷ Hywel, a'i rwymedigaethau o ran gosod ffenestri newydd.[92] Galwn, felly, ar y Comisiwn i roi rhagor o eglurder ar yr agwedd hon ar y Rhaglen Ffyrdd o Weithio ac i ymgysylltu ag Aelodau ar ei chanlyniadau arfaethedig. Bydd yn hanfodol i'r Comisiwn sicrhau bod yr Aelodau'n cael eu hysbysu ac yr ymgynghorir â hwy ar yr hyn a fydd yn brosiect aml-flwyddyn mawr gyda chost sylweddol.

**82.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr angen i wneud arbedion yn ystod y flwyddyn yn 2023-24 wedi effeithio ar brosiectau arfaethedig ac y bydd yn cael effaith ganlyniadol ar y blynyddoedd i ddod. At hynny, mae'r Pwyllgor wedi cydnabod, er ei fod yn derbyn bod prosiectau'n cael eu rheoli mewn modd hyblyg, bod

91 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 109
92 Gweler: Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24, Hydref 2022, Argymhelliad 4; Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2022-23, Hydref 2021, Argymhelliad 6

cynnwys rhestr o brosiectau arfaethedig a chyllid cysylltiedig yn nogfennau'r gyllideb ddrafft flaenorol wedi bod yn fuddiol at ddibenion tryloywder a chraffu.

**83.** Er ein bod yn gwerthfawrogi'r manylion a ddarparwyd gan y Comisiwn ar y prosiectau sy'n cael eu datblygu yn 2023-24 a 2024-2025[93], ac ein bod yn derbyn bod angen rheoli prosiectau'n ddeinamig, yn enwedig o fewn cyd-destun ariannol ansicr, rydym o'r farn y dylid cynnwys gwybodaeth o'r fath yn y gyllideb ddrafft. Mae hepgor manylion o'r fath ar gyfer 2024-25, pan oedd y wybodaeth honno wedi'i darparu mewn blynyddoedd blaenorol, yn awgrymu bod tryloywder yn symud am yn ôl, sy'n peri siom inni.

**84.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cynnydd yn y cymorth gweinyddol ac ymgynghori ar gyfer Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd dros y ddwy flynedd diwethaf ac o fewn y gyllideb ddrafft hon. Mae'r Pwyllgor o'r farn, oherwydd natur y berthynas rhwng y Comisiwn a'r Bwrdd Taliadau, fod angen i'r ddau gydweithio i archwilio ffyrdd o sicrhau bod prosesau'n effeithlon, yn gynaliadwy ac i osgoi dyblygu adnoddau. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig yn y lefelau cyllid a ddarperir i'r Bwrdd Taliadau a glustnodwyd ar gyfer cymorth ymgynghori allanol, a hoffai i'r Comisiwn ddarparu rhagor o wybodaeth am natur a chostau'r agwedd hon ar waith y Bwrdd.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn darparu rhagor o wybodaeth am brosiect Caerdydd 2032, gan gynnwys eglurder ynghylch a yw materion fel gosod ffenestri newydd a dyfodol y brydles yn rhan o'r prosiect hwnnw, ac mae'n gofyn i'r Comisiwn ymgysylltu'n llawn â'r Aelodau ar faterion o'r fath i sicrhau eu bod adlewyrchir safbwyntiau mewn unrhyw gynigion.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar y Comisiwn i ddarparu rhestr o brosiectau arfaethedig ar gyfer 2024-25, gydag amcangyfrif o'r cyllid a ddyrannwyd, cyn dechrau blwyddyn ariannol 2024-25 ac i ddull o'r fath gael ei fabwysiadu ar gyfer ceisiadau cyllidebol yn y dyfodol.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn darparu rhagor o wybodaeth am natur y gwasanaethau ymgynghori allanol a ddarperir i Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd a'r costau cysylltiedig.

---

93 Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethiant at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 11 Hydref 2023

# 5. Ymgysylltu a Chynaliadwyedd

## Ymgysylltu

**85.** Y llynedd, argymhellodd y Pwyllgor fod y Comisiwn yn gofyn am farn yr Aelodau er mwyn deall yn well y gwaith ymgysylltu y maent yn dymuno bwrw ymlaen ag ef, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y gellir cyflawni cynigion o'r fath o fewn y cyllidebau presennol.[94] Yn ei ymateb, dywedodd y Comisiwn y byddai'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn mynd i Fforwm y Cadeiryddion ac y byddai cynlluniau i ymgysylltu ag Aelodau yn cael eu cwblhau "yn ystod y misoedd nesaf".[95]

**86.** Nid oes unrhyw sôn am ymgysylltu yn nogfennaeth y gyllideb ac ni ddangosir costau ymgysylltu ar wahân. Mewn cymhariaeth, roedd dogfennaeth cyllideb 2023-24 yn cynnwys £200,000 ar gyfer prosiectau blaenoriaeth yn ymwneud â "gweithgareddau ymgysylltu ac allgymorth".[96]

**87.** Pan ofynnwyd iddo pam nad oedd y gyllideb ddrafft yn cynnwys manylion am gynlluniau ymgysylltu'r Comisiwn ar gyfer 2024-25, esboniodd y Comisiynydd gan ddweud ei fod yn ateb eithaf syml ac uniongyrchol, mewn gwirionedd, sef oherwydd eu bod o'r farn bod cyfathrebu ac ymgysylltu mor debyg, fe wnaethon nhw eu dwyn at ei gilydd.[97]

**88.** Eglurodd y Comisiynydd fod Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Senedd wedi mynd ati'n rhagweithiol i geisio barn yr Aelodau ar y gwaith ymgysylltu y maent yn dymuno bwrw ymlaen ag ef, gan ychwanegu bod dwy brif thema wedi dod i'r amlwg[98] o ganlyniad i'r trafodaethau hynny:

> *"a request for additional work from the citizen engagement team, with a specific focus, actually, on underrepresented communities; and then also a review of how Members use the estate."*[99]

**89.** Ychwanegodd y Comisiynydd, o ganlyniad i'r ceisiadau a'r galwadau hynny gan Bwyllgorau eraill fod adnoddau wedi'u hailddyrannu i'r tîm ymgysylltu â

---

94 Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24, Hydref 2022, Argymhelliad 8
95 Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethiant at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 30 Mawrth 2023
96 Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft 2023-24, Medi 2022, tudalen 15
97 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 124
98 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 132
99 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 132

dinasyddion i hybu capasiti, a bod y tîm hwnnw, yn ei dyb ef, wedi ymgysylltu'n weithredol â mwy na 3,000 o bobl ar draws tua 40 o ymholiadau gwahanol.[100] Rhoddwyd diweddariad pellach ar weithgareddau ymgysylltu'r Comisiwn yn ystod 2023 i'r Pwyllgor mewn gohebiaeth ddilynol.[101]

### Cynaliadwyedd

**90.** Yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Comisiwn fabwysiadu dull mwy cydweithredol o leihau'r defnydd o ynni ar ystâd y Senedd, a gofynnodd hefyd am wybodaeth am ganlyniadau, costau ac arbedion.[102]

**91.** Cyhoeddwyd Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2022-23 ym mis Mehefin 2023.[103] Pan ofynnwyd iddo am yr arbedion a ddaeth yn sgil y Comisiwn yn y maes hwn, esboniodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

> *"… with our ability to zone the heating system, we were able to save … £5,000 of gas last winter. And, indeed, we're planning on further reductions in the coming winter. We're going to reduce the set-points again for temperature and we're going to carry on providing heating going into certain Commission staff areas in Tŷ Hywel on quieter days to make further savings. But given the higher prices that we'll be paying, we expect this to save an additional £11,000 this winter, or a total of £20,000 over the total amount that we were paying before we started to take action."*[104]

**92.** At hynny, soniodd y Comisiynydd am gynlluniau i leihau'r defnydd o drydan ar draws ystâd y Senedd,[105] a'r ffaith i'r Comisiwn fod yn ymwneud â phrosiect cyfnewid gwres Caerdydd, a fydd yn sicrhau buddion o 2026.[106]

100 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 133
101 Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethiant at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 11 Hydref 2023
102 Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24, Hydref 2022, Argymhellion 2 a 3
103 Comisiwn y Senedd, Cynaliadwyedd: Adroddiad Blynyddol 2022-23, Mehefin 2023
104 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 116
105 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 117
106 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraffau 119

## Barn y Pwyllgor

**93.** Mae'r Pwyllgor yn falch o'r cynnydd a wnaed gan y Comisiwn o ran cyflawni ei nodau cynaliadwyedd. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn nodi datblygiadau cadarnhaol o ran lleihau'r defnydd o ynni a chostau cyfleustodau cysylltiedig.

**94.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai'r Comisiwn fod yn fwy uchelgeisiol yn ei agwedd at gynaliadwyedd. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn annog y Comisiwn i archwilio dulliau arloesol o wneud newidiadau gyda'r nod o leihau costau cyfleustodau a darparu gwell gwerth am arian yn y tymor hir. Dylai ffocws ymdrechion o'r fath fod ar ddatblygu mentrau i leihau'r defnydd o ynni ar ystâd y Comisiwn ac yn swyddfeydd etholaethol yr Aelodau. At hynny, rydym yn awyddus i'r Comisiwn sicrhau nad yw prosiectau i gynyddu effeithlonrwydd a lleihau ôl troed carbon y Senedd yn cael eu heffeithio'n andwyol gan yr angen i wneud arbedion.

**95.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith ymgysylltu a wnaed gan y Comisiwn, ac yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Comisiwn ar ei weithgareddau ymgysylltu ar gyfer 2023. Nodwn hefyd y camau a gymerwyd gan y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu i ymgynghori ag Aelodau ar y materion hyn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn siomedig â'r diffyg manylion a'r costau cysylltiedig yn y gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â gweithgareddau ymgysylltu'r Comisiwn, yn enwedig gan fod gwybodaeth o'r fath wedi'i darparu mewn blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn rhoi'r argraff nad yw ymgysylltu yn flaenoriaeth mor uchel i'r Comisiwn ag yr oedd ar un adeg, a gofynnwn am ragor o wybodaeth am y mentrau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2024-25, gan gynnwys costau cysylltiedig.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn parhau i archwilio mentrau i leihau'r defnydd o ynni, mewn perthynas ag ystâd y Comisiwn a swyddfeydd etholaethol yr Aelodau, gyda'r nod o sicrhau gwell gwerth am arian.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod rhagor o wybodaeth am gynigion ymgysylltu'r Comisiwn ar gyfer 2024-25, a'r costau cysylltiedig, yn cael eu cynnwys yng nghyllideb ddrafft y Comisiwn yn y dyfodol, a bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y manylion hyn cyn gynted â phosibl.